**DEDDF DRWYDDEDU 2003**
TRWYDDED ANHEDDAU

Cyngor Sir **Ceredigion** County Council

**ydded anheddau**

**PRM 0303 (29/04/2019)**

**- Manylion am y safle**

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriad post y safle, neu os nad oes un, cyfeirnod map ordnans neu ddisgrifiad**<br><br>**LLYFRGELL CENEDLAETHOL CYMRU** | |
| **Tref bost**<br>**ABERYSTWYTH** | **Cod Post**<br>**SY23 3BU** |
| **Rhif ffôn** | |

**Os oes cyfyngiad ar yr amser, y dyddiadau**

**NID OES CYFYNGIADAU AMSER AR Y DRWYDDED**

**Gweithgareddau trwyddedadwy a ganiateir gan y drwydded**

**ADLONIANT WEDI EI REOLEIDDIO:**
**DRAMAU**
**FFILMIAU**
**CHWARAEON DAN DO**
**CERDDORIAETH FYW**
**CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO**
**UNRHYW BETH SY'N DEBYG I GERDDORIAETH FYW neu CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO neu PERFFORMIADAU DAWNS**

**CYFLENWI ALCOHOL**

| |
|---|
| **Yr amseroedd y mae'r drwydded yn caniatáu cynnal gweithgareddau trwyddedadwy**<br><br>**ADLONIANT WEDI EI REOLEIDDIO (Trwyddedau wedi eu Trosi):**<br>**DRAMAU: Dim cyfyngiadau amser**<br>**FFILMIAU: LLUN – SAD: 0900 – 2300 yn ddyddiol. SUL: 1200 - 2300**<br>**CHWARAEON DAN DO: Dim cyfyngiadau amser**<br>**CERDDORIAETH FYW: LLUN – SAD: 1200 – 2400 yn ddyddiol.**<br>**SUL: 1200 - 2230**<br>**CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO: LLUN – SAD: 1200 – 2400 yn ddyddiol SUL: 1200 - 2230**<br>**UNRHYW BETH SY'N DEBYG I GERDDORIAETH FYW neu CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO neu PERFFORMIADAU DAWNS: LLUN SAD: 1200 – 2400 yn ddyddiol SUL: 1200 - 2230**<br><br>**CYFLENWI ALCOHOL**<br>**AR Y SAFLE: LLUN – SAD: 1100 – 2300 yn ddyddiol. SUL A DYDD GWENER GROGLITH: 1200 – 2230**<br>**DYDD NADOLING: 1200 – 1500 a 1900 – 2230**<br>**NOSWYL CALAN: O ddechrau oriau Noswyl Calan tan ddiwedd oriau Dydd Calan**<br><br>**ODDI AR Y SAFLE (Siop): LLUN – SAD: 0800 – 2300 yn ddyddiol. SUL: 1000 – 2230. DYDD GWENER GROGLITH: 0800 – 2230. DYDD NADOLING: 1200 – 1500 a 1900 - 2230** |
| **Oriau agor y safle**<br><br>**DDIM YN CYFYNGEDIG** |
| **Os yw'r drwydded yn caniatáu cyflenwi alcohol, a yw hyn yn golygu ar gyfer yfed ar y safle neu oddi yno**<br><br>**AR AC ODDI AR Y SAFLE** |

| |
|---|
| **Enw, cyfeiriad (cofrestredig), rhif ffôn ac e-bost (os yw'n berthnasol) deilydd y drwydded safle**<br><br>**LLYFRGELL CENEDLAETHOL CYMRU**<br><br>**ABERYSTWYTH**<br>**CEREDIGION**<br>**SY23 3BU** |
| **Rhif cofrestredig y deilydd, er enghraifft rhif cwmni, rhif elusen (os yw'n berthnasol)** |
| **Enw, cyfeiriad a rhif ffôn Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw'r drwydded safle yn caniatáu cyflenwi alcohol**<br><br>**Elaine Victoria Turnpenney**<br><br>**Aberystwyth** |
| **Rhif trwydded bersonol ac enw'r awdurdod sy'n rhoi'r drwydded bersonol a ddelir gan y Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw'r drwydded safle yn caniatáu cyflenwi alcohol**<br><br>**CER 1319**<br><br>**CYNGOR SIR CEREDIGION** |

**1 Amodau gorfodol pan fydd trwydded yn awdurdodi cyflenwi alcohol**

(1) Pan fydd trwydded safle'n awdurdodi cyflenwi alcohol, rhaid i'r drwydded gynnwys yr amodau canlynol.
(2) Yr amod cyntaf yw na ellir cyflenwi alcohol dan y drwydded safle-
(a) ar adeg pan nad oes yna oruchwyliwr safle dynodedig yn unol â'r drwydded safle, neu
(b) ar adeg pan nad oes gan y goruchwyliwr safle dynodedig drwydded bersonol neu pan fydd ei drwydded bersonol wedi'i hatal.
(3) Yr ail amod yw bod unrhyw alcohol a gyflenwir dan y drwydded safle'n gorfod cael ei gyflenwi neu'i awdurdodi gan berson sydd â thrwydded bersonol.

**2 Amod gorfodol: dangos ffilmiau**

(1) Pan fydd trwydded safle'n awdurdodi dangos ffilmiau, rhaid i'r drwydded gynnwys amod bod mynediad i blant pan fydd unrhyw ffilm yn cael ei dangos yn cael ei gyfyngu yn unol â'r adran hon.
(2) Pan fydd y corff categoreiddio ffilmiau'n cael ei nodi yn y drwydded, oni bai bod is-adran (3)(b) yn berthnasol, rhaid cyfyngu mynediad i blant yn unol ag unrhyw argymhelliad a wneir gan y corff hwnnw.
(3) (a) pan nad yw'r corff categoreiddio ffilmiau wedi'i nodi yn y drwydded, neu
(b) pan fydd yr awdurdod trwyddedu wedi hysbysu deiliad y drwydded bod yr is-adran hon yn berthnasol i'r ffilm dan sylw, dylid cyfyngu mynediad i blant yn unol ag unrhyw argymhelliad a wneir gan yr awdurdod trwyddedu hwnnw.
(4) Yn yr adran hon -
Mae "plant" yn golygu pobl dan 18 oed; ac mae
"corff categoreiddio ffilmiau" yn golygu'r person neu'r personau a ddynodwyd fel yr awdurdod dan adran 4 o Ddeddf Recordiadau Fideo 1984 (c.39) (yr awdurdod sy'n pennu addasrwydd ffilmiau fideo ar gyfer categoreiddio).

**3 Amod gorfodol: goruchwylio drysau**

(1) Pan fydd trwydded safle'n cynnwys amod bod yn rhaid i un berson neu ragor fod ar yr eiddo ar adegau penodol i gwblhau gweithgaredd diogelwch, rhaid i'r drwydded gynnwys amod bod yn rhaid i unrhyw berson o'r fath feddu ar drwydded Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.
(2) Ond does dim byd yn is-adran (1) sy'n gofyn am osod amod o'r fath -
(a) ar gyfer safleoedd o fewn paragraff 8(3)(a) o Atodlen 2 Deddf y Diwydiant Diogelwch Preifat 2001 (c.12) (safleoedd gyda thrwyddedau safle sy'n awdurdodi dramâu neu ffilmiau, neu
(b) ar gyfer safleoedd mewn perthynas ag-
(i) unrhyw achlysur a grybwyllir ym mharagraff 8(3)(b) neu (c) o'r Atodlen honno

(safleoedd sy’n cael eu defnyddio gan glwb sydd â thystysgrif safle clwb yn unig, dan hysbysiad digwyddiad dros dro sy’n awdurdodi dramâu neu ffilmiau, neu dan drwydded hapchwarae, neu

(ii) unrhyw achlysur o fewn paragraff 8(3)(d) o’r Atodlen honno (achlysuron a bennir gan reoliadau dan y Ddeddf honno).

(3) At ddibenion yr adran hon -

(a) mae "gweithgaredd diogelwch" yn golygu gweithgaredd y mae paragraff 2(1)(a) o’r Atodlen honno’n berthnasol ar ei gyfer, a

(b) bod paragraff 8(5) o’r Atodlen honno (dehongli cyfeiriadau at achlysur) yn berthnasol, am ei fod yn berthnasol mewn perthynas â pharagraff 8 o’r Atodlen honno.

## Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2014

**Yn effeithiol o 6 Ebrill 2014**

1. Rhaid i berson perthnasol sicrhau na chaiff unrhyw alcohol ei werthu na'i gyflenwi i'w yfed ar y safle nac oddi arno am bris sy'n llai na'r pris a ganiateir.

2. At ddibenion yr amod a nodir ym mharagraff 1-

   (a) mae "treth" i'w dehongli yn unol â Deddf Trethi ar Ddiodydd Alcoholaidd 1979(**6)**;

   (b) "y pris a ganiateir" yw'r pris a geir drwy ddefnyddio'r fformiwla –

   P = D + (DxV)

   pan mai –

   (i) P yw'r pris a ganiateir

   (ii) D yw cyfradd y dreth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol, a

   (iii) V yw cyfradd y dreth ar werth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth ar werth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol

   (c) ystyr "person perthnasol", mewn perthynas â safle lle y mae trwydded safle mewn grym, yw –

   (i) Deiliad y drwydded safle,

   (ii) Goruchwylydd dynodedig y safle (os oes un) mewn perthynas â thrwydded o'r fath, neu

   (iii) Deiliad trwydded bersonol sy'n cyflenwi alcohol o dan drwydded o'r fath neu sy'n caniatáu iddo gael ei gyflenwi;

   (d) ystyr "person perthnasol', mewn perthynas â safle lle y mae tystysgrif safle clwb mewn grym, yw unrhyw un o aelodau neu swyddogion y clwb sy'n bresennol ar y safle mewn rôl sy'n galluogi'r aelod neu'r swyddog i atal y cyflenwad o dan sylw; ac

(e) ystyr “treth ar werth” yw treth ar werth sy’n daladwy yn unol â Deddf Treth ar Werth 1994(7)

3. Os nad yw’r pris a ganiateir a roddir gan Baragraff (b) o baragraff 2 (ar wahân i’r paragraff hwn) yn rhif cyfan o geiniogau, rhaid cymryd mai’r pris a roddir gan yr is-baragraff hwnnw yw’r pris a roddir mewn gwirionedd gan yr is-baragraff hwnnw wedi’i dalgrynnu i fyny i’r geiniog agosaf.

4. (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys os yw’r pris a ganiateir gan Baragraff (b) o baragraff 2 ar y naill ddiwrnod (“y diwrnod cyntaf”) yn wahanol i’r pris a ganiateir ar y diwrnod nesaf (“yr ail ddiwrnod”) o ganlyniad i newid i gyfradd y dreth neu’r dreth ar werth.

(2) Mae’r pris a ganiateir sy’n gymwys ar y diwrnod cyntaf yn gymwys i werthiant neu gyflenwad alcohol sy’n digwydd cyn i’r cyfnod o 14 diwrnod sy’n dechrau ar yr ail ddiwrnod ddod i ben.

<u>Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) (Diwygio) 2014</u>

Mae'r Amodau Gorfodol isod yn **disodli** Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2010 a daethant i rym ar **1 Hydref 2014.**

**Mae amodau 1 i 4 yn cyfeirio at yr <u>holl</u> safleoedd sy'n gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed <u>ar y safle.</u> Mae amod 3 yn berthnasol i safleoedd sy'n gwerthu alcohol i'w yfed <u>oddi ar y safle.</u>**

**1.** (1) Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau nad yw staff ar y safle perthnasol yn ymgymryd â, yn trefnu neu'n cymryd rhan mewn unrhyw hyrwyddo anghyfrifol mewn perthynas â'r safle.

(2) Yn y paragraff hwn, mae hyrwyddo anghyfrifol yn golygu un neu fwy o'r gweithgareddau a ganlyn, neu weithgareddau sy'n sylweddol debyg, sy'n digwydd er mwyn hyrwyddo gwerthiant neu gyflenwad o alcohol i'w yfed ar y safle -

(a) gemau neu weithgareddau eraill sy'n gofyn am neu'n hybu, neu sydd wedi'u dylunio i ofyn neu i hybu unigolion i -

(i) yfed swm o alcohol o fewn cyfyngiad amser (heblaw yfed alcohol a werthwyd neu a gyflenwyd ar y safle cyn terfyn y cyfnod y mae'r unigolyn cyfrifol wedi'i awdurdodi i werthu neu gyflenwi alcohol), neu

(ii) yfed cymaint o alcohol â phosib (un ai mewn cyfyngiad amser neu fel arall);

(b) darparu swm diddiwedd neu amhenodol o alcohol am ddim neu am bris penodedig neu ar ddisgownt i'r cyhoedd neu i grŵp a gaiff ei ddiffinio gan nodwedd benodol sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(c) darparu alcohol am ddim neu ar ddisgownt neu unrhyw beth arall fel gwobr i annog neu i wobrwyo prynu ac yfed alcohol dros gyfnod o 24 awr neu lai mewn modd sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(d) gwerthu neu gyflenwi alcohol mewn cysylltiad â phosteri neu bamffledi ar, neu yng nghyffiniau'r safle, a ellir ei ystyried yn rhesymol fel ei fod yn caniatáu, neu'n annog neu'n cyfeirio at effeithiau meddwdod ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn modd ffafriol;

(e) unigolyn yn tywallt alcohol yn uniongyrchol i geg unigolyn arall (heblaw pan fo unigolyn yn methu yfed heb gymorth oherwydd anabledd).

**2.** Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau fod dŵr yfed am ddim yn cael ei ddarparu ar gais i gwsmeriaid pan fod hyn ar gael yn rhesymol.

**3.** (1) Rhaid i ddeilydd y drwydded eiddo neu ddeilydd y dystysgrif eiddo clwb sicrhau y gweithredir polisi gwirio oed ar y safle mewn perthynas â gwerthu neu gyflenwi alcohol.

(2) Rhaid i oruchwyliwr dynodedig y safle mewn perthynas â'r drwydded eiddo sicrhau bod gwerthiant alcohol ar y safle yn digwydd yn unol â'r polisi gwirio oed.

(3) Rhaid i'r polisi fynnu bod unigolion sy'n edrych dan 18 oed i'r person cyfrifol (neu'r oed hŷn a nodir yn y polisi) ddangos ar gais, cyn cael prynu alcohol, tystiolaeth yn cynnwys eu llun, dyddiad geni a naill ai -

(a) marc holograffig, neu

(b) nodwedd uwchfioled.

**4.** Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau -

(a) os caiff unrhyw un o'r diodydd alcoholig canlynol eu gwerthu neu eu cyflenwi i'w hyfed ar y safle (heblaw am ddiodydd alcohol sy'n cael eu gwerthu neu eu cyflenwi ar ôl eu gwneud yn barod i'w gwerthu mewn cynhwysydd wedi'i gau'n ddiogel), bydd yr alcohol ar werth i gwsmeriaid yn y mesurau a ganlyn -

(i) cwrw neu seidr: ½ peint;

(ii) jin, rym, fodca neu wisgi: 25 ml neu 35 ml; a

(iii) gwin llonydd mewn gwydryn: 125 ml;

(b) caiff y mesurau hyn eu dangos mewn bwydlen, ar restr brisiau neu ddeunydd printiedig arall sydd ar gael i gwsmeriaid ar y safle; a

(c) lle nad yw cwsmer, mewn perthynas â gwerthiant alcohol, yn manylu ar y swm o alcohol i'w werthu, bydd y gwerthwr yn hysbysu'r cwsmer fod y mesurau hyn ar gael.

**Atodiad 2 – Amodau sy'n gyson â'r Rhestr weithredu**

**Mae'r Drwydded Safle'n amodol ar Amodau Ymhlygedig a addaswyd dan Ddeddf Trwyddedu 1964.  Tystysgrif Plant wedi'i chynnwys ar gyfer Bwyty Pen Dinas Llun-Sad: 1100-2100 a Sul: 1200-2100.**

**Trwydded Safle'n amodol ar Amodau Ymhlygedig a addaswyd dan Drwydded Sinematograff Rhif 144.**

**Trwydded Safle'n amodol ar Amodau Ymhlygedig a addaswyd dan Drwydded Adloniant Cyhoeddus Rhif 2355.**

**Trwydded Safle'n amodol ar Amodau Ymhlygedig a addaswyd dan Drwydded Theatr Rhif 439.**

**Amodau Trwydded Adloniant Cyhoeddus**

**C. YR AMODAU**

1. Wrth ddefnyddio'r Safle i ymarfer y Drwydded, bydd y Trwyddedai'n cydymffurfio â'r Amodau Trwyddedu bob amser, a bydd ond yn cynnal y math o Adloniant Cyhoeddus a nodir yn y Drwydded.

2. Bydd y Trwyddedai neu unigolyn arall cyfrifol sy'n ddeunaw oed o leiaf ac wedi'i awdurdodi'n ysgrifenedig gan y Trwyddedai ("yr Enwebai") yn bresennol ar y Safle trwy gydol yr adeg pan fydd y Safle ar agor ar gyfer Adloniant Cyhoeddus.

3. Os na fydd y trwyddedai'n cael ei gyflogi bellach ar y safle trwyddedig neu os nad yw bellach yn ymwneud â threfnu neu reoli adloniant dan do ar y safle trwyddedig, dylai hysbysu Cyfarwyddwr Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnachu o fewn 72 awr, a darparu enw'r unigolyn/unigolion newydd a fydd yn ymwneud â'r gwaith.

4. Bydd y Trwyddedai neu'r Enwebai yn goruchwylio'r holl bobl sydd ar y Safle mewn modd digonol er mwyn sicrhau trefn dda ac ymddygiad gweddus, ac ni fydd yn caniatáu mynediad i unrhyw un y credir yn rhesymol ei fod dan ddylanwad alcohol neu sylwedd meddwol tebyg.

5. Ni chaiff unrhyw unigolyn feddu ar fwy nag un drwydded ar gyfer yr un dyddiad ac amser.

6. Ni chaiff y Safle ei ddefnyddio ar gyfer Adloniant Cyhoeddus ac eithrio ar y diwrnodau ac yn ystod yr oriau a nodir yn y Drwydded, yn amodol ar unrhyw amrywiaethau a awdurdodir yn sgil Gorchymyn Arbennig i Eithrio dan Adran 74 o Ddeddf Trwyddedu 1964.

7. *Ni fydd y Safle'n cael ei ddefnyddio ar gyfer Adloniant Cyhoeddus ar Ddydd Nadolig na Gwener y Groglith.*

8. Ni fydd cyfanswm nifer y bobl a fydd yn bresennol yn yr Ardal Drwyddedig ar unrhyw un adeg yn ystod Adloniant Cyhoeddus yn fwy na'r nifer uchaf a nodir yn y Drwydded, a bydd y Trwyddedai, yr Enwebai, yr holl aelodau staff ac unrhyw bobl eraill sy'n bresennol yn cael eu hystyried wrth gyfrif nifer y bobl sy'n bresennol, ac eithrio unrhyw swyddog awdurdodedig o'r Cyngor, yr Heddlu neu'r Awdurdod Tân, neu gynrychiolydd asiantaeth hyrwyddo iechyd sydd wrthi'n cyflawni'i ddyletswyddau.

9. Bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod copi o'r Drwydded ac Amodau'r Drwydded yn cael ei arddangos, a'i gadw wedi hynny mewn cyflwr da ac addas, ger y brif Fynedfa i'r Safle, er mwyn i unrhyw un sy'n dod i mewn i'r Safle allu ei ddarllen yn hawdd. Hefyd, bydd hysbysiad amlwg a hawdd ei adnabod yn cael ei arddangos ger y brif fynedfa i'r safle yn nodi "safle wedi'i drwyddedu i dderbyn [ ] o bobl at ddibenion Adloniant Cyhoeddus, gan gynnwys staff" mewn llythrennau bras 25mm o uchder o leiaf.

10. Bydd y Trwyddedai'n tynnu sylw'r holl Oruchwylwyr Drysau a staff eraill a gyflogir o bryd i'w gilydd ar y safle at gynnwys y Drwydded, y Cynllun Cymeradwy, amodau'r Drwydded, a'r Cynllun Seddi cymeradwy (os yn berthnasol).

11. Bydd swyddogion awdurdodedig y Cyngor, yr Heddlu, a Brigâd Dân Canolbarth a Gorllewin Cymru'n cael mynediad dirwystr bob amser i'r safle trwyddedig er mwyn cyflawni'u dyletswyddau statudol.

12. Ni fydd unrhyw boster, hysbyseb, llun, neu ddeunydd arall yn cael ei arddangos, ei werthu neu'i gyflenwi ar y safle sy'n debygol o dramgwyddo yn erbyn moesoldeb, annog neu hyrwyddo trosedd, neu arwain at anhrefn, neu dramgwyddo yn erbyn teimladau cyhoeddus.

13. Ni fydd y Trwyddedai'n caniatáu unrhyw arddangosfa neu arddangosiad neu berfformiad o hypnoteiddio (fel y'i diffinnir gan adran 6 o Ddeddf Hypnoteiddio 1952) ar y Safle wrth ymarfer y Drwydded, heb gael caniatâd ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw.

14. Ni fydd y Trwyddedai'n gwneud neu'n caniatáu unrhyw newid sylweddol i'r Safle heb gael caniatâd ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw.

15. **DRYSAU ALLANFA**

15.1 Bydd y safle'n cael ei ddarparu â nifer digonol o allanfeydd sydd wedi'u gosod a'u cynnal fel bod gan y cyhoedd ffyrdd parod a digonol o adael yn ddiogel. Bydd yr holl ddrysau sy'n arwain o allanfeydd i'r coridorau neu i du allan y safle'n cael eu cadw ar agor, pan fo hynny'n ofynnol gan y Cyngor, a'u clymu'n ôl gyda chlo clap neu ddyfais arall, ac yn cael eu cadw'n glir o rwystrau. Ni fydd bariau rhwystro dros dro'n cael eu gosod, a bydd unrhyw fariau rhwystro parhaol ar draws allanfeydd a ddarperir gyda chymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer atal neu reoli mynediad, yn cael eu gosod fel bod y rhan sy'n union o flaen yr allanfa'n agor yn awtomatig wrth bwyso arno i gyfeiriad yr allanfa.

15.2 Bydd pob Drws Allanfa cael ei adeiladu a'i gynnal fel ei fod yn hawdd ei agor led y pen, a bydd unrhyw gloeon clap yn cael eu tynnu a'r holl gloeon a osodwyd yn cael eu datgloi, a'r holl farilfolltau'n cael eu tynnu'n ôl cyn bod y Safle'n cael ei agor ar gyfer Adloniant Cyhoeddus. Dylai unrhyw gloeon clap, cloeon a barilfolltau aros ar agor trwy gydol y cyfnod y mae'r Safle ar agor ar gyfer Adloniant Cyhoeddus, a nes bod bob person sy'n mynychu'r adloniant wedi gadael.

15.3 Bydd unrhyw ddrysau neu agoriadau o'r fath a gymeradwyir gan y Cyngor yn cael eu nodi'n glir gydag arwyddion Diogelwch Tân, hysbysiadau a symbolau graffig, a fydd yn cydymffurfio â BS5499 Rhan 1:1990 (Manylebau Arwyddion Diogelwch Tân) ac yn cael eu hongian i agor i gyfeiriad yr allanfa neu i fod yn rhai swing dwbl, a'u hongian fel nad ydynt yn agor yn uniongyrchol dros stepen neu risiau.

15.4 Bydd pob Drws Allanfa wedi'i nodi'n glir gydag arwydd ALLANFA, a fydd yn cydymffurfio â'r holl Amodau Prydeinig cyfredol perthnasol, sy'n gofyn bod yr arwyddion mewn llythrennau gwyn ar gefndir gwyrdd.

15.5. Gosodir arwydd ger pob Drws Allanfa sydd wedi'i gloi gyda dyfais math panig yn datgan 'GWTHIWCH Y BAR I AGOR' mewn llythrennau bras gwyn sy'n 50mm o uchder o leiaf, ac o led cymesur, ar gefndir gwyrdd, a bydd unrhyw arwydd o'r fath wedi'i arddangos mewn man amlwg yn union uwchlaw bar llorweddol y Drws Allanfa.

15.6. Bydd unrhyw Ddrysau neu Gatiau Allanfa sy'n agor am i mewn yn unig yn cael eu clymu ar agor mewn modd a fydd yn eu hatal rhag cau'n ddamweiniol neu heb awdurdod.

15.7. Ar ddiwedd Adloniant Cyhoeddus, caniateir i bobl adael y safle trwy bob Drws Allanfa **priodol**, a fydd ar agor led y pen ar yr adeg honno.

15.8. Gosodir arwyddion ar unrhyw ddrysau ac agoriadau (ar wahân i allanfeydd) sy'n arwain i rannau eraill o'r safle, yn nodi'r defnydd o'r rhannau hynny, neu dylid gosod arwyddion 'PREIFAT' os na chaniateir mynediad i'r cyhoedd.

15.9. Ni ddylid darparu arwyddion 'DIM ALLANFA' heb ganiatâd y Cyngor.

15.10. Os bydd y Cyngor yn rhoi caniatâd i ddefnyddio cadwyni, cloeon clap neu ddyfeisiau cloi o fath arall ar gyfer clymu drysau allanfa pan na fydd y cyhoedd ar y safle, bydd gofyn cael person cyfrifol i symud y cadwyni, cloeon clap neu ddyfeisiau eraill cyn caniatáu mynediad i'r cyhoedd, ac ni fydd cadwyni, cloeon clap neu ddyfeisiau eraill o'r fath yn cael eu hail-osod trwy gydol yr adeg y bydd y cyhoedd yn bresennol ar y safle trwyddedig.

15.11 Lle defnyddir gatiau sy'n dymchwel, neu estyll sy'n rholio fyny, rhaid bod y rhain wedi'u cloi ar agor tra bod y cyhoedd yn bresennol. Ni chaniateir defnyddio drysau troi fel drysau allanfa.

15.12 Bydd pob Drws Allanfa'n cael ei archwilio a'i brofi'n gorfforol cyn i'r safle agor ar gyfer Adloniant Cyhoeddus i sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag Amod 15.

## 16. GORUCHWYLWYR DRYSAU/STIWARDIAID

16.1 Bydd y Trwyddedai'n enwebu Goruchwyliwr Drysau cyfrifol sy'n 18 oed o leiaf ar gyfer pob Drws Allanfa, a'i ddyletswydd fydd sicrhau bod y Drws Allanfa hwnnw'n cael ei agor ar unwaith os bydd tân neu argyfwng arall, ac i osgoi unrhyw amheuaeth, ni fydd mwy nag un drws yn cael ei ddynodi ar gyfer pob Goruchwyliwr Drysau.

16.2 Ni fydd Goruchwyliwr Drysau'n ymgymryd ag unrhyw ddyletswydd arall a fyddai'n ei atal:

i) rhag cyflawni'r ddyletswydd a nodir yn Amod 16.1 neu
ii) rhag ymgymryd â goruchwyliaeth gyffredinol a rheoli pobl sy'n mynychu'r Safle ar gyfer Adloniant Cyhoeddus.

16.3 Yn amodol ar Amod 16.4 bydd y Trwyddedai'n darparu nifer priodol o Oruchwylwyr Drysau ar gyfer y nifer uchaf a ganiateir a nodir yn y drwydded, a bydd y nifer priodol yn un fesul bob cant o bobl neu ran o gant sydd wedi'i gynnwys yn y nifer hwnnw, ond os bydd yna dystysgrif dan Adran 77 o Ddeddf Trwyddedu 1964 mewn grym ar gyfer y Safle, bydd y nifer priodol yn ddau ar gyfer y can person cyntaf ac un ar gyfer bob can person ychwanegol neu ran o gant o'r nifer uchaf a ganiateir.

16.4 Os bydd y trwyddedai am ostwng y nifer uchaf a ganiateir ar gyfer Adloniant Cyhoeddus arbennig yn is na'r nifer uchaf a nodir yn y drwydded, bydd yn rhaid iddo/iddi yn gyntaf gael cydsyniad y Cyngor ar ôl gwneud cais i'r perwyl hwnnw o leiaf **deg diwrnod gwaith** cyn y digwyddiad.

16.5 Pan fydd y Drwydded yn cynnwys adloniant disgo sglefrolio, sglefrio neu adloniant tebyg, bydd o leiaf un Goruchwyliwr Drysau ar ddyletswydd ar y Safle ar gyfer bob 75 o bobl neu ran o 75 sydd wedi'u cynnwys yn y nifer uchaf a nodir yn y Drwydded.

16.6 Ni chyflogir unrhyw Oruchwyliwr Drysau gan y Trwyddedai ar y Safle at ddibenion Amod 16 oni bai ei fod yn unigolyn addas i'r diben, a hyd nes bod yr unigolyn hwnnw wedi'i gydnabod gan y Cyngor fel Goruchwyliwr Drysau Cofrestredig.

16.7 Bydd gan bob Goruchwyliwr Drysau dortsh drydan effeithlon.

16.8 Pan fyddant ar ddyletswydd, bydd pob Goruchwyliwr Drysau'n gwisgo bathodyn adnabod fel bo'n ofynnol gan y Cyngor yn y modd a nodir yn Amod 16.9.

16.9 Pan fyddant ar ddyletswydd, bydd pob Goruchwyliwr Drysau Cofrestredig yn gwisgo, mewn man amlwg ar ochr chwith eu brest, a chyda'r rhif cofrestru a'u llun yn wynebu allan, fathodyn adnabod fel bo'n ofynnol gan y Cyngor.

16.10 Ni chaniateir i unrhyw Oruchwyliwr Drysau i yfed unrhyw ddiod feddwol neu gymryd unrhyw sylwedd meddwol arall pan fydd ar ddyletswydd ar y Safle.

16.11 Bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod pob Goruchwyliwr Drysau'n cael cyfarwyddyd llawn mewn perthynas â'r drefn diogelwch tân sydd i'w dilyn yn unol ag Amod 22, gan gynnwys defnyddio'r offer ymladd tân sydd ar gael, a sut i alw'r Awdurdod Tân mewn argyfwng.

16.12 Bydd Trwyddedai'r safle trwyddedig (Clybiau a Thafarndai) yn cynnal, trwy gydol cyfnod y drwydded, gofrestr o'r holl bersonél diogelwch a gyflogir ar y safle, a rhaid i unrhyw bersonél o'r fath fod yn unigolion addas i'r diben, gan gyfeirio at y canlynol:

i) rhif cofrestru ac enw a chyfeiriad yr unigolyn

ii) y dyddiad a'r amser y dechreuodd ef/hi ar ddyletswydd, ynghyd â chydnabyddiaeth wedi'i lofnodi gan yr unigolyn

iii) y dyddiad a'r amser y gorffennodd ef/hi ei gyfnod o ddyletswydd, ynghyd â chydnabyddiaeth wedi'i lofnodi gan yr unigolyn

iv) os nad yw'r unigolyn yn cael ei gyflogi gan y trwyddedai, enw'r person neu'r cwmni neu'r asiantaeth sy'n cyflogi'r unigolyn neu'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau'r unigolyn

v) cedwir y gofrestr fel bod modd ei harchwilio'n hwylus gan un o swyddogion awdurdodedig y Cyngor neu Swyddog o'r Heddlu

vi) bydd y gofrestr wedi'i rhwymo a'i rhifo mewn trefn, a bydd y trwyddedai'n sicrhau ei bod hi'n cael ei chadw'n ddiogel i atal unrhyw un rhag cael mynediad ati/ei newid heb awdurdod

vii) bydd y trwyddedai'n cadw'r gofrestr yn ddiogel a rhaid cadw cofnodion am gyfnod o 3 blynedd.

16.13 Bydd y trwyddedai/deiliad y drwydded adloniant, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, yn hysbysu'r Swyddog Trwyddedu ynghylch unrhyw Oruchwyliwr Drysau Trwyddedig a ddiswyddwyd am gamymddygiad difrifol, a allai effeithio'n rhesymol ar allu Goruchwyliwr Drysau Trwyddedig o'r fath i ddal ei afael ar, neu adnewyddu ei gofrestriad.

16.13.1. Rhaid i oruchwyliwr drysau hysbysu'r Cyngor ynghylch unrhyw euogfarn droseddol o fewn saith diwrnod o'r euogfarn honno.

16.14 Bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod unrhyw berson dan 18 oed sydd ar y safle (neu unrhyw dir sydd wedi'i gynnwys yn yr ardal y mae'r Drwydded Adloniant Cyhoeddus ar ei chyfer) yn cael ei wahardd rhag yfed alcohol, a bod mesurau effeithiol yn cael eu cymryd i sicrhau bod yna gydymffurfio â'r amod hwn.

## 17. DIOGELWCH TRYDANOL

17.1 Bydd yr holl osodiadau trydanol ar y safle, gan gynnwys y weirio, ffitiadau a dyfeisiau'n cael eu cynnal mewn cyflwr diogel yn unol â safonau'r Cyngor.

17.2 Bydd unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau at y gosodiadau trydanol neu unrhyw ffitiadau trydanol eraill yn cael eu cyflawni'n unol â'r Safonau Prydeinig presennol, gan Beiriannydd Trydanol Cymwysedig, ac ni fydd unrhyw waith trydanol sy'n gyfystyr â newid sylweddol yn cael ei gynnal heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llawn yn unol ag Amod 14.

17.3 *Mae'r holl osodiadau trydanol O FEWN YR ADEILAD i'w harchwilio a'u profi'n flynyddol, a dylid cofnodi darlleniadau'r profion fel y nodir yn yr argraffiad diweddaraf o Reoliadau Weirio Sefydliad y Peirianwyr Trydanol (16eg Argraffiad).*

17.4 Rhaid bod pob tystysgrif yn cael ei dosbarthu gan Beiriannydd Trydanol/ Contractwr Trydanol sy’n aelod o’r Cyngor Archwilio Cenedlaethol ar gyfer Contractio Gosodiadau Trydanol (NICEIC) neu’r Gymdeithas Contractwyr Trydanol (ECA).

17.5 Rhaid bod yna dystysgrif ddilys o’r fath i gyd-fynd â phob cais am ganiatáu neu adnewyddu trwydded Adloniant Cyhoeddus, neu gais am ganiatâd i wneud newidiadau strwythurol.

17.6 Os bydd unrhyw archwiliad a gynhelir dan Amod 17.3 yn datgelu bod unrhyw ran o’r gosodiad trydanol yn anniogel, neu’n methu â chwrdd â gofynion y rheoliadau Diogelwch neu’r Safonau Prydeinig oedd yn berthnasol ar adeg y gosodiad, bydd y Trwyddedai’n cywiro’r nam neu’r diffyg cyn defnyddio’r Safle at ddibenion y Drwydded hon.

17.7 Heb leihau effaith Amod 17.1 yn gyffredinol, bydd yr holl gylchedau pŵer o fewn yr ardal drwyddedig yn cynnwys Dyfeisiau Cerrynt Gweddillol, a fydd yn ffurfio rhan annatod o’r gosodiad, a bydd unrhyw ddyfeisiau o’r fath wedi’u cynllunio i weithredu os bydd y cerrynt gollwng ar gyfer daearu’n fwy na 30 mili-amp, gydag amser gweithredu uchaf o 30 mili-eiliad.

17.8 Bydd Dyfeisiau Cerrynt Gweddillol yn amddiffyn yr holl socedi a ddefnyddir ar gyfer offer trydanol cludadwy a ddefnyddir gan berfformwyr a throellwyr, a bydd cyfleuster profi wedi’i gynnwys ym mhob Dyfais Cerrynt Gweddillol.

17.9 Bydd yr holl Ddyfeisiau Cerrynt Gweddillol yn cael eu profi cyn i’r safle agor ar gyfer adloniant cyhoeddus.

## 18. **Y GOFRESTR**

18.1 Bydd y Trwyddedai’n cadw cofrestr ar ffurf llyfr sydd wedi’i rwymo’n barhaus, a bydd yn sicrhau bod yr wybodaeth ganlynol yn cael ei chofnodi yn y gofrestr ar yr adeg briodol.

i) enwau a chyfeiriadau’r holl Oruchwylwyr Drysau a Goruchwylwyr Drysau Cofrestredig cyn iddyn nhw ddechrau ar eu dyletswyddau ar y Safle ar unrhyw adeg y mae’r Safle ar agor ar gyfer Adloniant Cyhoeddus

ii) cadarnhad bod y profion a’r gwiriadau gofynnol dan Amod 17.9 (Dyfeisiau Cerrynt Gweddillol), Amod 20.3 (goleuadau argyfwng), Amod 22.3 (offer ymladd tân,  Amod 15.10 (allanfeydd brys) ac Amod 22.6 (cyfarwyddiadau staff) wedi’u cynnal cyn i’r Adloniant Cyhoeddus gymryd lle.

18.2 Bydd y gofrestr ar gael bob amser ac fe’i cyflwynir i’w harchwilio ar gais unrhyw un o swyddogion awdurdodedig y Cyngor neu’r Awdurdod Tân neu un o swyddogion yr Heddlu.

19. **GWRESOGI AC AWYRU**

19.1 Bydd holl rannau’r Ardal Drwyddedig yn cael eu darparu â system wresogi ac awyru ddigonol a fydd yn cwrdd â safonau’r Cyngor.

19.2 Ni fydd y Trwyddedai’n defnyddio nac yn caniatáu defnyddio gwresogyddion cludadwy pan fydd y safle ar agor ar gyfer adloniant cyhoeddus.

20. **GOLEUADAU**

20.1 Bydd holl rannau’r Ardal Drwyddedig a’r holl lwybrau dianc mewn argyfwng yn cael eu darparu â digon o olau artiffisial yn unol â gofynion yr Awdurdod Tân.

20.2 Darperir goleuadau argyfwng i alluogi pobl i weld yn iawn wrth iddynt adael y Safle os digwydd bod y goleuadau arferol yn methu, a bydd unrhyw osodiadau o’r fath yn cael eu gwirio, eu profi a’u harchwilio’n unol â’r Safonau Prydeinig cyfredol.

20.3 Bydd yr holl oleuadau argyfwng yn cael eu profi cyn i’r Safle agor ar gyfer Adloniant Cyhoeddus i sicrhau eu bod yn gweithio’n iawn.

20.4 **Dylai’r holl adloniant ddod i ben ar unwaith, a dylid rhoi cyfarwyddyd i’r cyhoedd i adael y safle’n ddi-oed:-**

a) **Os bydd y goleuadau arferol yn methu ac yn parhau i fod yn ddiffygiol am fwy na hyd disgwyliedig y goleuadau argyfwng, namym awr.**

b) **Os bydd y goleuadau arferol yn methu, a bod hyd disgwyliedig y goleuadau argyfwng yn awr neu lai**

c) **Os nad ydy ffynhonnell y cyflenwad ar gyfer y goleuadau argyfwng yn ddigonol i gynnal y golau hwnnw am o leiaf awr**

d) **Os bydd y goleuadau argyfwng yn methu â chydymffurfio â lefel y golau angenrheidiol.**

21. **SEDDI A LLORIAU**

21.1 Bydd cynllun seddi'n cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân **sy'n cydymffurfio â Chanllawiau'r Swyddfa Gartref ar gyfer Rhagofalon Tân Mewn Mannau Adloniant Presennol** a, phan fydd wedi'i gymeradwyo, fe'i arddangosir mewn man amlwg ar y safle.

21.2 Gyda seddi ar gyfer 200 o bobl, gallant fod yn gadeiriau unigol.

21.3 Os bydd mwy na 200 o bobl, dylid clymu'r cadeiriau at ei gilydd mewn rhesi o ddim llai na 4 a dim mwy na 12 o gadeiriau.

21.4 Os bydd mwy na **200** o bobl, dylai'r cadeiriau ger y ffrynt, y cefn, bob ochr i'r eiliau a ger allanfeydd fod wedi'u gosod yn sownd i'r llawr.

21.5 **Gyda seddi sefydlog** dylai lled y seddi fod yn 300mm o leiaf

21.6 Bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod arwyneb neu orchuddion y lloriau, stepiau, grisffyrdd a rheiliau llaw yn yr Ardal Drwyddedig a'r mynedfeydd a'r allanfeydd i'r ardal honno yn cwrdd â'r manylebau, ac mewn cyflwr diogel yn unol â gofynion y Cyngor a'r Awdurdod Tân.

21.7 Bydd ymylon blaen unrhyw stepiau a grisffyrdd yn cael eu hamlygu, a bydd gorffeniad yr holl eiliau, allanfeydd ac arwyneb stepiau a grisffyrdd yn cael ei gadw'n ddi-lithr bob amser.

## 22. DIOGELWCH TÂN

22.1 Bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod yna gydymffurfio â'r holl fesurau atal tân a mesurau diogelwch tân, yn unol â gofynion yr Awdurdod Tân.

22.2 Bydd offer ymladd tân digonol ac addas yn cael ei ddarparu, ei gynnal a'i leoli'n unol â gofynion yr Awdurdod Tân, a bydd pob offer o'r fath yn cael ei archwilio'n flynyddol gan berson cymwys.

22.3 Heb leihau effaith Amod 22.2, bydd yr holl offer ymladd tân yn cael ei archwilio cyn i'r Safle agor ar gyfer Adloniant Cyhoeddus.

22.4 Bydd y Trwyddedai'n gosod, ac o hynny ymlaen yn cynnal ffôn ar y Safle i'w ddefnyddio os bydd yna dân neu argyfwng arall, a bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod hysbysiad yn cael ei arddangos yn glir mewn man amlwg ger pob un ffôn ar y Safle, yn nodi sut i alw'r Awdurdod Tân, cyfeiriad y Safle, a rhif ffôn y ffôn arbennig hwnnw.

22.5 Bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod hysbysiad yn cael ei arddangos mewn man amlwg ger y Brif Fynedfa i'r Safle, yn nodi ble mae'r ffôn agosaf y tu allan i'r Safle a sut i alw'r Awdurdod Tân.

22.6 Bydd y Trwyddedai’n sicrhau bod trefn safonol yn cael ei llunio ar gyfer tân ar y Safle, a bydd yn sicrhau yn arbennig bod y camau canlynol yn cael eu cymryd os bydd y Trwyddedai, Goruchwylwyr Drysau, Goruchwylwyr Drysau Cofrestredig neu aelodau eraill o’r staff yn canfod neu’n amau bod tân wedi dechrau:-

i) bydd y larwm yn cael ei ganu ar unwaith trwy ddefnyddio gair cod neu roi’r larwm tân a ddarparwyd ar waith
ii) bydd yr Awdurdod Tân yn cael ei alw ar unwaith os bydd yna dân neu amheuaeth o dân. Rhaid galw’r Awdurdod Tân hefyd os bydd yna dân ar unrhyw adeg arall pan na fydd y safle ar agor ar gyfer Adloniant Cyhoeddus. Mae’r amod hwn yn berthnasol p’un ai ydy’r tân wedi diffodd ei hunan ai peidio
iii) bydd y Trwyddedai neu’r Person Enwebedig yn dod â’r Adloniant Cyhoeddus i ben ar unwaith ac yn sicrhau bod yr holl oleuadau ar y Safle’n cael eu troi ymlaen. Yna bydd yn gwneud cyhoeddiad, gan ddwyn i gof yr angen i wacau’r Safle’n gyflym ac yn drefnus heb achosi panig
iv) bydd y Trwyddedai neu unigolyn a enwebir ganddo/ganddi yn chwilio’r toiledau a’r ardaloedd cyfagos i sicrhau bod pawb wedi gadael
v) bydd pob Drws Allanfa’n cael ei agor led y pen ac ar ôl cael pawb allan o’r adeilad, gellir taclo’r tân gyda’r offer ymladd tân sydd ar gael, cyn belled â bod neb yn wynebu risg diangen o wneud hynny
vi) trwy gydol y broses o wacau’r adeilad, dylid osgoi defnyddio’r gair ‘TÂN’
vii) ni ddylid defnyddio, rhyddhau neu storio unrhyw ffrwydron, tân gwyllt, hylifau fflamadwy, anweddau neu nwyon meddwol, neu effeithiau arbennig eraill ar y Safle heb ganiatâd ymlaen llaw gan yr Awdurdod Tân
viii) bydd unrhyw ddefnyddiau, llenni, a chroglenni yn yr ardal drwyddedig wedi’u gwneud o ddefnydd gwrthfflam neu wedi’u trin â sylwedd gwrthfflam parhaol addas, i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â’r Safonau Prydeinig cyfredol
ix) bydd yr holl seddi meddal a ddarperir yn yr Ardal Drwyddedig yn cydymffurfio â’r Safonau Prydeinig cyfredol o ran eu gallu i wrthsefyll tân.

## 23. **CYMORTH CYNTAF**

23.1 Bydd offer Cymorth Cyntaf yn cael ei ddarparu a’i gynnal ar y Safle bob amser, a bydd hysbysiadau’n cael eu gosod yn nodi lleoliad offer o’r fath yn glir, mewn dull a gymeradwyir gan y Cyngor.

23.2 Bydd offer Cymorth Cyntaf a ddarperir dan Amod 23.1 yn cydymffurfio â'r gofynion lleiaf a osodir yn yr Atodiad sydd ynghlwm, a chydag unrhyw ofynion ychwanegol a osodir gan y Cyngor mewn perthynas â'r Safle.

23.3 Pryd bynnag y defnyddir y Safle ar gyfer sglefrio, p'un ai ar rew neu ar arwyneb synthetig, neu sglefrolio i gerddoriaeth, bydd man Cymorth Cyntaf gydag offer llawn yn cael ei ddarparu a'i gynnal yn unol â gofynion y Cyngor, a bydd hysbysiadau priodol yn nodi'n glir ble mae'r man Cymorth Cyntaf. Hefyd bydd o leiaf un person sydd â Thystysgrif Cymorth Cyntaf gyfredol a roddwyd gan y Groes Goch neu Frigâd Ambiwlans Sant Ioan yn bresennol.

## 24. CYFLEUSTERAU GLENDID

24.1 Darperir toiledau digonol ac ar wahân ar y Safle ar gyfer aelodau o'r cyhoedd o'r ddau ryw, gyda drysau sydd wedi'u marcio'n glir ac yn briodol, ac wrth bennu digonolrwydd y toiledau a ddarperir, rhoir ystyriaeth i'r canllawiau a geir yn y Safonau Prydeinig cyfredol.

24.2 Bydd yr holl doiledau a ddarperir yn unol ag Amod 24.1 yn cael eu cadw mewn cyflwr da, a byddant yn cael eu glanhau, eu goleuo, a'u hawyru'n ddigonol ac yn effeithiol, a bydd dŵr tap poeth ac oer, sebon a chyfleusterau sychu dwylo digonol ar gael, ac yn achos toiledau'r merched, bydd darpariaeth ddigonol ar gyfer cael gwared â deunydd glendid personol.

## 25. GLENDID Y SAFLE

25.1 Bydd pob rhan o'r Safle ac unrhyw iard sy'n perthyn i'r Safle'n cael ei gadw mewn cyflwr glân a thaclus yn unol â gofynion y Cyngor.

25.2 Darperir nifer digonol o finiau addas gyda chaeadau sy'n ffitio'n iawn ar gyfer derbyn sbwriel o'r Safle.

25.3 Bydd y biniau'n cael eu cynnal mewn cyflwr glân a thaclus ac fe'u lleolir yn unrhyw safleoedd sy'n ofynnol gan y Cyngor, a gwneir trefniadau digonol ar gyfer symud pob sbwriel yn rheolaidd o'r Safle.

## 26. NIWSANS SŴN A THREFN GYHOEDDUS

26.1 Ni chaniateir unrhyw arddangosiad, adroddiad, meim, canu neu ddawnsio sy'n aflednais neu'n dramgwyddus, neu'n debygol o arwain at dorheddwch yn yr Ardal Drwyddedig.

26.2 Heb leihau gallu’r Cyngor i ymarfer ei bwerau a’i ddyletswyddau mewn perthynas â niwsans statudol dan Ddeddf Amddiffyn yr Amgylchedd 1990, ni fydd y Trwyddedai’n defnyddio nac yn caniatáu i’r Safle gael ei ddefnyddio mewn modd all achosi gormod o sŵn neu amharu mewn unrhyw ffordd arall ar drigolion cyfagos.

26.3 Yn unol â gofynion y Cyngor, bydd y Trwyddedai:

i) yn sicrhau bod arwyddion yn gofyn i gwsmeriaid adael y Safle mewn modd tawel a threfnus yn cael eu harddangos mewn man amlwg ar y Safle
ii) yn sicrhau bod y staff yn cael cyfarwyddyd i ofyn i gwsmeriaid sy’n gadael y Safle wneud hynny mewn ffordd dawel a threfnus
iii) yn cymryd unrhyw gamau ymarferol fel bo angen i sicrhau nad yw ceir sy’n berchen i gwsmeriaid yn rhwystro’r briffordd gyhoeddus neu’n rhwystro mynediad i eiddo preifat
iv) yn cymryd unrhyw gamau ymarferol fel bo angen i sicrhau nad yw bysus, tacsis a cherbydau eraill sy’n dod i’r Safle ar ddiwedd adloniant cyhoeddus yn gadael i’w hinjan redeg tra bod y cerbydau’n llonydd, gan greu gormod o sŵn neu achosi anghyfleustra i drigolion cyfagos, neu greu rhwystr diangen ar y briffordd gyhoeddus.

26.4 Bydd y Trwyddedai’n sicrhau nad yw’r safle neu unrhyw dir gerllaw sydd dan ei reolaeth yn cael ei ddefnyddio i gyflenwi neu ddefnyddio cyffuriau a reolir yn anghyfreithlon.

Sylwer: Ar dderbyn adroddiad oddi wrth brif swyddog yr heddlu

a) yn nodi bod yna broblem ddifrifol mewn perthynas â chyflenwi neu ddefnyddio cyffuriau a reolir yn y lleoliad, neu ger unrhyw leoliad a reolir gan ddeiliad y drwydded ac
b) yn rhoi rhesymau dros gredu bod yna broblem

gall yr Awdurdod Trwyddedu:

a) ddiddymu’r drwydded neu
b) osod telerau, amodau neu gyfyngiadau ar y drwydded neu’r amod ar ei chyfer.

## 27. LLES CWSMERIAID

27.1 *Bydd y Trwyddedai’n sicrhau bod dŵr yfed glân ac iach ar gael am ddim i unrhyw gwsmeriaid sy’n gofyn amdano ar unrhyw adeg yn ystod Adloniant Cyhoeddus*

27.2 Os gweir cais gan un o Swyddogion Awdurdodedig y Cyngor, bydd y Trwyddedai’n neilltuo ystafell addas all fod ar gael yn ystod Adloniant Cyhoeddus ar gyfer cwsmeriaid anhwylus, er mwyn rhoi cyfle iddynt adfer neu aros am driniaeth feddygol.

28. **POBL ANABL**


28.1 Ar unrhyw achlysur pan fydd pobl anabl yn bresennol ar y Safle yn ystod Adloniant Cyhoeddus, gwneir unrhyw drefniadau arbennig sy'n angenrheidiol dan yr amgylchiadau i alluogi bob person i adael yn ddiogel mewn argyfwng.


29. **YSWIRIANT**


29.1 Bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod Polisi Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus priodol mewn grym yn ystod cyfnod y Drwydded, sy'n ymwneud â'i ddefnydd o'r Safle ar gyfer Adloniant Cyhoeddus.


**Atodiad 3 – Amodau yn atodedig yn sgil gwrandawiad gan yr awdurdod trwyddedu/cyfarfod cyfryngu**

## Atodiad 4 – Cynlluniau




Floor plan of main entrance level 1:150
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Aberystwyth
National Library of Wales
Licensing Act
Drawing title
Scale
Drawing no.
GARETH LEWIS
ARCHITECTS


Floor plan of first floor level 1:100
National Library of Wales
Licensing Act
GARETH LEWIS
ARCHITECTS



**Cynllun lleoliad 1:500**
**Location plan 1:500**

Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Aberystwyth
National Library of Wales

Licensing Act

| Drawing title | Scale | Drawing no. |
| --- | --- | --- |
| Cynllun lleoliad Location plan | 1:500 | 1272/04 |

**GARETH LEWIS**
PENSEIRI ARCHITECTS